



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Bro Pedr
Peterwell Terrace
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion
SA48 7BX**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2016

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/12/2016

Cyd-destun

Lleolir Ysgol Bro Pedr yn nhref Llanbedr Pont Steffan ac o fewn awdurdod lleol Ceredigion. Mae'r ysgol yn un o'r ysgolion cyntaf 3-19 oed yng Nghymru. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn dair oed i'r adran gynradd ac yn derbyn disgyblion o ysgolion cynradd partner eraill o'r awdurdod lleol a thu hwnt i'r adran uwchradd. Mae 1,049 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sef 345 yn yr adran gynradd, a 704 yn yr adran uwchradd. Mae Ysgol Bro Pedr yn gyfuniad o ddwy ysgol flaenorol, sef Ysgol Gynradd Ffynnonbedr ac Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. Arolygwyd y ddwy ysgol ddiwethaf yn 2006 (Uwchradd) a 2008 (Cynradd), pan oedd cyfanswm poblogaeth y ddwy ysgol yn 1,053.

Lleolir 'Canolfan Y Bont', sef adnodd sirol ar gyfer disgyblion o oed uwchradd ag anghenion dwys, ar safle'r ysgol. Sefydlwyd 'Uned Sgiliau' sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol lled ddwys a disgyblion ymddygiadol fregus.

Mae 14.4% o'r disgyblion yn gymwys i brydau ysgol am ddim sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.1% ar gyfer ysgolion uwchradd ac 20.1% ar gyfer ysgolion cynradd. Ymranna'r ganran hon i 11.6% yn yr adran uwchradd, a 20.3% yn yr adran iau. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer ystod lawn o alluoedd. Mae 4.6% o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae 11.1% o'r disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 6%.

Daw 63.0% o'r disgyblion o gartrefi lle na ddefnyddir y Gymraeg.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn ysgol arloesi ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau yn ymwneud â'r cwricwlwm a/neu ddsygu proffesiynol.

Mae'r tîm arwain yn cynnwys y pennaeth, dau ddirprwy bennaeth, dau bennaeth cynorthwyol, rheolwr ysgol, tri phennaeth ffes a phennaeth y chweched. Penodwyd y pennaeth yn Ionawr 2016 gydag un dirprwy bennaeth a dau bennaeth cynorthwyol yn cael eu penodi o fewn y tair blynedd diwethaf

Y cyllid unigol yn Ysgol Bro Pedr ar gyfer 2016-17 yw £4,887 y disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod perfformiad o ran y trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi bod yn gryf am y pedair blynedd ddiwethaf
- bod disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim wedi gwneud cynnydd cyson
- bod llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu, darllen, siarad a rhifedd yn llwyddiannus o oed cynnar iawn
- bod llawer o ddisgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith, yn datblygu eu medrau meddwl, yn datrys problemau'n llwyddiannus ac yn cydweithio'n effeithiol
- bod ystod medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd cyfnod allweddol 2 yn ardderchog; serch hynny, nid yw medrau TGCh disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 ac uwch yn adeiladu digon ar y sylfaen gadarn hon
- bod llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n gyfrifol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol i fywyd yr ysgol trwy gynorthwyo â'r addysgu a'r dysgu
- bod athrawon, mewn llawer o'r gwersi, yn gosod disgwyliadau uchel ac yn sefydlu awyrgylch weithio gadarnhaol yn eu dosbarthiadau
- mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi cynyddu yn y sector cynradd ond wedi aros yn gyson yn y sector uwchradd

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol, sy'n seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles disgyblion
- bod prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn rhan reolaidd o waith yr ysgol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar safonau a lles disgyblion; fodd bynnag, mae effeithiolrwydd rheolwyr canol wrth ddefnyddio data i arfarnu effaith strategaethau yn anghyson
- bod gan staff ddarlun cadarn o gryfderau a meysydd i'w gwella yn yr ysgol
- bod y cynllun datblygu ysgol yn ddogfen gynhwysfawr a defnyddiol sy'n cynnwys blaenoriaethau gwerthfawr sydd wedi eu hadnabod trwy'r adroddiad hunanarfarnu
- bod yr adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn gynhwysfawr ar y cyfan ac yn cynnwys dadansoddiadau gwerthfawr o ddata perfformiad; fodd bynnag, mae ansawdd yr adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn amrywio
- bod gan yr ysgol gynlluniau cytunedig i waredu diffyg yn y gyllideb

Argymhellion

- A1 Codi lefelau presenoldeb ysgol gyfan
- A2 Gwella cysondeb ac ansawdd y prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant ar draws yr ysgol
- A3 Codi safonau medrau TGCh disgyblion yn y sector uwchradd a sicrhau profiadau cyson trwy'r ysgol
- A4 Dileu'r diffyg yn y gyllideb

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Yn y Cyfnod Sylfaen, ers 2013, mae perfformiad o ran y deilliannau disgwylidig mewn llythrennedd Cymraeg a Saesneg wedi amrywio ac, yn y flwyddyn ddiwethaf maent islaw ysgolion tebyg. Mae'r perfformiad ar y deilliant disgwylidig ar gyfer datblygiad mathemategol wedi amrywio dros yr un cyfnod ond mae'n uwch nag ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad ar y deilliant uwch yn amrywio mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ac mae'n is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg yn 2016.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yn y pynciau craidd unigol wedi amrywio dros bedair blynedd o gymharu â chyfartaledd ysgolion tebyg. Ar lefel 5 neu'n uwch, mae'r perfformiad wedi amrywio yn y pynciau craidd i gyd ond mae'r tueddiad am i lawr mewn Cymraeg a Saesneg.

Yng nghyfnod allweddol 3, ers 2013, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi gwella'n raddol ond wedi gostwng yn 2016.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad wedi bod yn amrywiol ar gyfer llawer o ddangosyddion allweddol ers 2013. Mae perfformiad o ran y trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi bod yn gryf ac yn uwch na'r deilliannau a fodlwyd am y pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad o ran y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi amrywio yn ystod y cyfnod hwn ac mae'n is nag ydyw mewn ysgolion tebyg eraill am dair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol o gyfnodau allweddol blaenorol mewn llawer o ddangosyddion allweddol.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae llawer o ddisgyblion naill ai'n parhau â'u haddysg mewn ysgol neu mewn coleg addysg bellach.

Ym Mlwyddyn 13, ers 2013, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni tair gradd A*-C mewn Safon Uwch neu gyfwerth wedi amrywio'n fawr ond mae'n uwch na chyfartaledd y teulu am y ddwy flynedd diwethaf. Dros yr un cyfnod, mae cyfran y disgyblion sydd wedi ennill tair gradd A* neu A hefyd wedi amrywio ond wedi gostwng yn 2016. Mae pob disgybl yn llwyddo i ennill y trothwy lefel 3 yn gyson. Yn 2016, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gynnal ar ôl gwneud cynnydd sylweddol yn 2015 i fod yn uwch na'r teulu a Chymru.

At ei gilydd, nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen nac yng nghyfnod allweddol 2.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad bechgyn yn y dangosydd pynciau craidd yn is na bechgyn mewn ysgolion tebyg ers 2014. Mae merched yn perfformio'n gyson well na merched mewn ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 4, mae

perfformiad bechgyn yn y prif ddangosyddion yn is na'r merched, gyda'r bwch yn eu perfformiad yn y trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg.

Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim wedi perfformio'n well na disgyblion eraill dros y tair blynedd hyd at 2015. Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn uwch na disgyblion eraill yng nghyfnod allweddol 2, tra yng nghyfnod allweddol 3, maent yn perfformio'n debyg i ddisgyblion eraill.

Yng nghyfnod allweddol 4, yn y prif ddangosydd lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, mae'r disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim wedi gwneud cynnydd cyson ac, erbyn 2016, yn perfformio'n llawer gwell na'r un grŵp mewn ysgolion tebyg eraill.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn adeiladu'n llwyddiannus ar waith blaenorol gan ddwyn i gof y wybodaeth angenrheidiol a'i chymhwyso'n effeithiol i'r gwaith newydd. Mewn ychydig o wersi, mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd sydd ymhell uwchlaw'r disgwyliadau.

O ddechrau eu cyfnod yn yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus yn y Gymraeg a Saesneg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol i gynhyrchu gwaith ar gyfer amrediad eang o gynulleidfaedd a phwrpas. Mae safonau sillafu a gramadeg yn gyffredinol dda gan y rhan fwyaf o ddisgyblion, yn arbennig yn y sector cynradd. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn trefnu ac yn cyflwyno syniadau a gwybodaeth yn glir yn eu hysgrifennu gan wneud defnydd effeithiol o eirfa bynciol a thechnegol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn effeithiol o oed cynnar iawn. Maent yn defnyddio eu medrau yn llwyddiannus ar draws y pynciau a meysydd dysgu, er enghraifft i ddarganfod gwybodaeth mewn testunau amrywiol. Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus yn darllen i gynulleidfa ac yn arddangos hyn yn llwyddiannus yn y gwersi, gwasanaethau ac ar 'Radio Bro Pedr'.

Mae llawer o ddisgyblion yn trafod eu gwaith yn fedrus gan ddangos dealltwriaeth dda yn y ddwy iaith. O oed cynnar, mae'r disgyblion yn siarad yn glir gyda'i gilydd gydag oedolion. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, mae medrau llafar da gan y mwyafrif o ddisgyblion. Maent yn ymateb yn dda i gwestiynau'r athro, gyda'r disgyblion mwy galluog yn cyfiawnhau eu hatebion yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n fwriadus i drafodaethau ac yn cynnig syniadau synhwyrol ar eu gwaith eu hunain a gwaith eraill. Maent yn defnyddio geirfa bynciol yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n weithredol ar yr athro a'u cyfoedion ac, o ganlyniad, maent yn cynyddu eu dealltwriaeth a gwybodaeth bynciol.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhifedd cadarn ac maent yn eu defnyddio'n effeithiol ar draws ystod o bynciau a meysydd dysgu. Mae llawer yn datblygu eu medrau rhif yn gynnar trwy weithredu strategaethau amrywiol a diddorol, er enghraifft yn defnyddio gwrthrychau fel bananas a draenog i gyfrifo. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ffurf briodol i ddatrys problemau mewn cyd-destun cyfarwydd a newydd. Maent yn defnyddio'r pedair rheol rhif yn effeithiol ac yn trefnu eu gwaith yn rhesymegol. Pan fo'n briodol, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn llwyddiannus wrth gasglu a threfnu data yn annibynnol.

Mae ystod medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sydd gan y disgyblion erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd cyfnod allweddol 2 yn ardderchog. Mae bron pob un yn defnyddio'u medrau'n hollol hyderus ac effeithiol iawn ar draws y cwricwlwm cyfan. Mae'r 'Dewiniaid Digidol' yn datblygu medrau TGCh eu cyfoedion yn arbennig o dda ac yn cynnal y clwb codio. O ganlyniad, mae medrau cyfathrebu, trin data a modelu o safon uchel iawn yn y sector cynradd. Fodd bynnag, nid yw medrau TGCh disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 nac uwch yn adeiladu digon ar y sylfaen gadarn hon. Prin iawn mae disgyblion yn yr adran uwchradd yn defnyddio'r ystod iawn o fedrau mewn cyd-destunau pwrpasol yn y pynciau eraill.

Mewn Cymraeg, yng nghyfnod allweddol 4, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn dilyn cwrs iaith gyntaf ac mae llawer yn llwyddo i ennill TGAU gradd A*-C. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn dilyn trywydd ail iaith. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, gwna lawer o ddisgyblion gynnydd gwerthfawr wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae'r mwyafrif yn gwneud defnydd effeithiol o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu naturiol â'i gilydd mewn sefyllfaoedd anffurfiol o gwmpas yr ysgol.

Lles: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut i ymddwyn yn gyfrifol a chadw'n ddiogel ar y we. Mae bron pob un disgybl yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn gofidio am unrhyw beth. Mae llawer yn hyderus bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achos o fwlio. Ar y cyfan, maent yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd ffitrwydd a bwyta'n iach. Mae llawer o ddisgyblion yn cadw'n heini yn rheolaidd trwy gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau allgyrsiol fel dawnsio, hoci a rygbi.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn gwersi ac ar safle'r ysgol yn dda iawn ac maent yn dangos cwrteisi tuag at gyfoedion, staff yr ysgol ac ymwelwyr. Mae llawer yn ystyriol iawn o'i gilydd, gyda'r disgyblion hŷn yn barod iawn i gynorthwyo eraill neu wirfoddoli yng Nghanolfan y Bont. Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n gyfrifol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol i fywyd yr ysgol trwy gynorthwyo â'r addysgu a'r dysgu. Er enghraifft, mae aelodau o'r sgwad llythrennedd a rhifedd yn cefnogi ac yn hyfforddi eraill i ddatblygu'r medrau hyn yn effeithiol.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig. Maent yn datblygu eu medrau meddwl, yn datrys problemau'n llwyddiannus ac yn cydweithio'n effeithiol. Er enghraifft, wrth lunio bwletinau newyddion neu greu ffilmiau diddorol yn seiliedig ar hanes yr ardal. Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu'r medrau angenrheidiol ar gyfer y cam nesaf o'u dysgu yn fuddiol.

Mae llais y disgybl yn gryf o fewn yr ysgol. Mae cyngor yr ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae wedi dylanwadu ar agweddau o fywyd ysgol fel y polisi gwrthfwlio, gemau buarth, yr addysgu a chysylltiadau â gwledydd tramor. Enghraifft nodedig o hyn yw cynorthwyo ysgol yn Lesotho i ddatblygu cyngor ysgol yno. Mae'r disgyblion hefyd yn cyfrannu'n gyson yn y gymuned ac yn codi llawer o arian yn flynyddol tuag at elusennau lleol a chenedlaethol.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi cynyddu yn y sector cynradd ond wedi aros yn gyson yn y sector uwchradd. Yn 2016, mae presenoldeb yn yr uwchradd yn is na'r deilliannau a fodolwyd ar ôl tair blynedd o fod yn uwch. Mae prydlondeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Ni fu unrhyw waharddiad parhaol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd dros dro.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu gwerthfawr ymhob cyfnod allweddol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion a cholegau lleol er mwyn diwallu anghenion a diddordeb pob disgybl yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae yna ddarpariaeth dda iawn o weithgareddau allgyrsiol amrywiol sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion, er enghraifft teithiau addysgol, clybiau a siaradwyr gwadd.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn effeithiol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r gweithdrefnau i godi safonau llythrennedd a rhifedd yn cael eu cydlynu, eu cynllunio a'u hymgorffori'n effeithiol ar draws yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn ardderchog ac yn effeithio'n gadarnhaol iawn ar safonau'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau TGCh y disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 na gweddill y sector uwchradd yn adeiladu digon ar hyn. Mae'r ysgol yn darparu rhaglen werthfawr o gefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion sydd ag anawsterau darllen a medrau rhif. Mae hyn yn cynnwys clybiau darllen, cymorth gyda gwaith rhif a defnydd o'r chweched dosbarth fel 'Bydis darllen'.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ac yn dathlu'r Gymraeg a Chymreictod ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Darperir ar gyfer datblygu'r dimensiwn Cymreig trwy ystod eang o weithgareddau sy'n cynnwys 'Diwrnod T Llew Jones', 'Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd yr Urdd', sioe 'Mewn Cymeriad' a chysylltiadau Comenius. Mae'r 'Pwyllgor Cymreictod' dan arweiniad y disgyblion yn cyfrannu'n fuddiol at hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn nodwedd gref o gwricwlwm yr ysgol. Mae cyfuniad o weithgareddau buddiol o fewn gwersi ac yn allgyrsiol sy'n cyfrannu'n helaeth at ddealltwriaeth disgyblion o faterion cynaliadwyedd. Mae'r grŵp eco yn weithgar iawn. Trwy gysylltiadau gyda gwledydd eraill, yn arbennig ysgol yn Lesotho, mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o'u rôl wrth arwain a chyfrannu at brosiectau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Addysgu: Da

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn modelu iaith yn dda yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn gosod amcanion clir ac yn rheoli ymddygiad yn briodol.

Mewn llawer o'r gwersi, mae athrawon yn gosod disgwyliadau uchel ac yn sefydlu awyrgylch weithio gadarnhaol yn eu dosbarthiadau. Mae ganddynt wybodaeth gynhwysfawr am anghenion y disgyblion ac maent yn cynllunio'n fanwl i sicrhau bod y rhan fwyaf yn datblygu'n dda. Mae llawer o athrawon yn defnyddio amrywiaeth o dasgau ymarferol ac ysgrifenedig yn llwyddiannus mewn cyd-destun diddorol sy'n codi cymhelliant disgyblion. Defnyddir amrediad eang o adnoddau symbylus i gynorthwyo'r dysgu. Mae llawer o'r gwersi wedi eu cynllunio'n addas fel dilyniant i'r gwaith blaenorol. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen yn effeithiol ac i gydweithio mewn grŵp. Mae cyflymder addas ac amseru effeithiol yn sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd cryf.

Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw'r athrawon yn caniatáu digon o gyfle i ddisgyblion ysgrifennu na thrafod gyda'i gilydd. Nid yw lefel yr her yn ddigon uchel ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn colli diddordeb yn y gwaith.

Mewn ychydig o wersi ble mae'r addysgu'n effeithiol iawn, mae'r athrawon yn cynllunio i ddiwallu anghenion pob disgybl ar sail asesu blaenorol. Mae'r berthynas waith yn arbennig ac mae'r oedolion yn dangos gofal eithriadol dros bob un. Defnyddia'r athrawon ystod eang o strategaethau a thasgau heriol sy'n cynnal diddordeb disgyblion ac yn arwain at gynnydd ardderchog. Efen lwyddiannus o'r gwersi hyn yw'r ffordd y mae'r athrawon yn amrywio'r cyfrwng iaith yn fedrus yn ôl y galw. Trwy hyn, maent yn llwyddo i ddatblygu medrau cyfathrebu dwyieithog bron pob disgybl.

Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn cynnig adborth llafar defnyddiol iawn ac, mewn ychydig o wersi, maent yn gofyn cwestiynau'n fedrus i'r disgyblion. Mae llawer o athrawon yn gweithredu polisi marcio'r ysgol yn gyson ac yn darparu sylwadau ysgrifenedig defnyddiol wrth farcio gwaith y disgyblion. Serch hynny, mewn ychydig o achosion, nid yw'r sylwadau yn rhoi digon o arweiniad penodol i'r disgyblion ar sut i fynd ati i wella ansawdd eu gwaith. Mewn llawer o feysydd, lle'n briodol, caiff disgyblion gyfleoedd defnyddiol i hunanasesu ac asesu gwaith eu cyfoedion. O ganlyniad, maent yn deall yr hyn sydd angen ei wneud i wella'u gwaith.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cynhwysfawr i olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r 'Model Haeddiant' yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i staff ynghylch cyflawniad gwahanol grwpiau o ddisgyblion. Mae hwn yn bwydo'n effeithiol i weithdrefn 'Enfysau Bro Pedr' i olrhain eu cynnydd. Mae'r ysgol yn darparu adroddiadau rheolaidd ar gynnydd y disgyblion i rieni a gofawyr. Mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau hyn yn gynhwysfawr ac yn nodi'n glir yr hyn sy'n dda a'r hyn sydd angen ei wella.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu a chefnogi iechyd a lles disgyblion yn gryf ac yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau disgyblion tuag at y rhain. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gyda nifer o asiantaethau eraill ac mae hyn yn sicrhau darpariaeth fuddiol. Mae cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion ddatblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol trwy ddiwrnodau addysg bersonol a chymdeithasol a gwasanaethau boreol. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'n cynnig amrediad eang o weithgareddau defnyddiol i hybu ffitrwydd. Mae'n annog disgyblion i werthfawrogi'r celfyddydau a gweithgareddau diwylliannau eraill, er enghraifft yng ngwledydd Pwyl a Tsieina, trwy brofiadau allgyrsiol llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfarwyddyd defnyddiol i ddisgyblion wrth wneud dewisiadau ar gyfer cyrsiau ôl-16 a chyfnod allweddol 4

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi mabwysiadu ystod o strategaethau addas i wella presenoldeb. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith hyn ar gyfradd presenoldeb yr ysgol gyfan.

Mae gan yr ysgol strategaethau priodol sy'n cyfrannu'n effeithiol iawn at ymddygiad da y rhan fwyaf o'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae llwyddiant yn cael ei fesur ar gyfer yr ychydig iawn o ddisgyblion sydd â chynllun ymddygiad unigol.

Mae'r ddarpariaeth eang ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac i ddarparu ymyrraeth o ansawdd uchel ar draws yr ysgol, gan gynnwys Canolfan y Bont. Mae athrawon, cynorthwyr ac arbenigwyr iechyd yn cydweithio'n effeithiol iawn i fodloni anghenion lles unigol y disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu cymorth buddiol iawn i ddisgyblion bregus sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel ac i fagu hyder.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae Ysgol Bro Pedr yn ysgol hapus sydd ag ethos gofalgarn a chefnogol. Mae iddi gymeriad Cymreig naturiol ac mae hefyd yn adlewyrchu'r gymuned amlddiwylliannol. Mae'n gweithio'n llwyddiannus i hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth. Mae'r staff yn gweithio'n gydwybodol i sicrhau cyfle cyfartal i bawb a bod pob disgybl ac oedolyn yn rhydd oddi wrth aflonyddwch yn yr ysgol. Caiff pob disgybl fynediad addas i'r cwricwlwm ac i ystod eang o weithgareddau allgyrsiol.

Mae'r adeiladau yn lân a thaclus ac yn briodol ar gyfer nifer y disgyblion. Mae gan yr ysgol ardaloedd allanol eang a defnyddiol sy'n hybu gweithgareddau ymarfer corff ac yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o fyd natur yn llwyddiannus. Enghreifftiau da o hyn yw'r maes chwarae aml dywydd, y llyn a'r ardal bywyd gwyllt. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid yn addas. Mae bron pob rhan o'r adeiladau yn hygyrch ac mae'r ysgol yn addasu trefniadau ac adnoddau yn briodol, pan fo angen. Mae hyn yn sicrhau na fydd unrhyw un ag anabledau yn derbyn triniaeth lai ffafriol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol, sy'n seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles disgyblion. Mae'n llwyddo i gyfleu ei gweledigaeth yn effeithiol i'r staff, y disgyblion, y llywodraethwyr a'r rhieni.

Caiff y pennaeth ei chefnogi'n effeithiol gan aelodau'r uwch dîm rheoli. Mae'r tîm hwn yn cynnwys dau ddirprwy, dau bennaeth cynorthwyol, pedwar arweinydd ffes a'r rheolwr ysgol. Mae gan aelodau'r tîm hwn gyfrifoldebau penodol sydd wedi eu rhannu'n deg. Mae rheolwyr canol yn adnabod eu meysydd cyfrifoldeb yn lled dda, er mai anghyson yw effeithiolrwydd eu defnydd o ddata i fesur effaith strategaethau.

Mae gan bob aelod o staff ddisgrifiad swydd priodol ac mae'r strwythur staffio a llinellau atebolrwydd yn glir.

Mae gweithdrefnau rheoli'r ysgol yn drefnus. Mae calendr priodol o gyfarfodydd dros y flwyddyn academaidd yn sicrhau bod arweinwyr a staff yn trafod materion pwysig sy'n ymwneud â chodi safonau a lles. Darperir bwletinâu staff defnyddiol yn wythnosol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau a materion pwysig. Mae'r staff yn cydweithio'n briodol fel tîm ac yn darparu cyfleoedd effeithiol i'r disgyblion ddysgu.

Mae systemau'r ysgol ar gyfer rheoli perfformiad staff yn gadarn. Mae'r amcanion yn briodol, ac yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae wedi cyflwyno strategaethau effeithiol ar gyfer datblygu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac yn cydweithio'n strategol ag ysgolion a sefydliadau addysg eraill o fewn Llwybrau Dysgu 14-19.

Mae'r llywodraethwyr yn datblygu eu rôl yn llwyddiannus. Mae'r strwythur is-bwyllgorau yn effeithiol ac yn sicrhau bod gan yr aelodau adnabyddiaeth ddefnyddiol o safonau, a datblygiadau cwricwlaidd a chyllidol yr ysgol. Mae llywodraethwr yn mynychu cyfarfodydd y cyngor ysgol yn rheolaidd, sy'n ffordd effeithiol o bontio rhwng y corff llawn a'r fforwm disgyblion. Trwy weithredu fel llywodraethwyr cyswllt â phynciau ac agweddau penodol, mae aelodau'r corff llywodraethol yn ehangu eu dealltwriaeth am waith yr ysgol. Maent yn rhoi ystyriaeth lawn i ddeddfwriaeth ac yn cynnig her briodol yn ogystal â bod yn gefnogol i'r ysgol.

Gwella ansawdd: Da

Mae prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn elfennau rheolaidd o waith yr ysgol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar safonau a lles disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau hunanarfarnu cadarn sy'n tynnu ar ystod briodol o dystiolaeth. Mae'r prosesau effeithiol yn cynnwys arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau, dadansoddiad data, holiaduron i rieni a chanfod barn disgyblion. O ganlyniad, mae gan staff ddarlun cadarn o gryfderau a meysydd i'w gwella yn yr ysgol. Mae'r staff i gyd yn gyfrifol am

sicrhau ansawdd ac yn cyfrannu'n werthfawr at y broses. Serch hynny, nid yw'r trefniadau monitro yn cynnwys pob agwedd o waith yr ysgol y tu allan i'r gwersi ffurfiol yn y sector uwchradd.

Mae trefniadau effeithiol i gasglu barn rhieni ar waith yr ysgol. Mae rhieni yn llenwi holiaduron ac yn cyfrannu eu syniadau trwy'r fforwm rhieni. Yn yr un modd, mae trefniadau addas ar gyfer casglu barn disgyblion ar waith yr ysgol. Mae cyfleoedd gwerthfawr i lenwi holiaduron ac i gyfrannu trwy'r cyngor ysgol.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen werthfawr ac yn cwmpasu holl agweddau y fframwaith arolygu cyffredin. Mae'r ddogfen yn arfarnol ar y cyfan ac yn cynnwys dadansoddiad gwerthfawr o ddata o berfformiad disgyblion dros gyfnod. Serch hynny, mae ychydig o adrannau yn llai arfarnol ac yn ddisgrifiadol. Mae adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn gynhwysfawr ar y cyfan ac mae llawer yn cynnwys dadansoddiadau gwerthfawr o ddata perfformiad.. Serch hynny, mae ychydig o'r adroddiadau yn rhy ddisgrifiadol mewn manau ac, o ganlyniad, nid yw'r meysydd sydd angen eu gwella yn cael eu hamlygu i gyd.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen gynhwysfawr a defnyddiol sy'n cynnwys naw prif flaenoriaeth werthfawr sydd wedi eu hadnabod trwy'r adroddiad hunanarfarnu. Ar gyfer pob blaenoriaeth, mae manylion ar gyfer gweithredu, cyfrifoldebau, amserlen ac adnoddau priodol. Mae'r meini prawf llwyddiant yn glir iawn ac yn fesuradwy. Mae'r holl gynllun yn gysylltiedig â thargedau cyffredinol yr ysgol ar gyfer safonau ar ddiwedd pob cyfnod allweddol. Mae cynlluniau datblygu adran yn werthfawr ar y cyfan ac yn cynnwys camau gweithredu priodol. Serch hynny, mewn ychydig o adrannau, nid yw'r cyswllt rhwng y cynlluniau datblygu a nodau strategol yr ysgol yn ddigon clir.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod eang o bartneriaid addas i ehangu profiadau a lles disgyblion ac i leihau effaith amddifadedd.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth agos a gwerthfawr gyda'r rhieni. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i rieni fynychu cyfarfodydd, nosweithiau gwybodaeth ac i gyfrannu syniadau trwy'r fforwm rhieni. Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i argymhellion y rhieni, er enghraifft sefydlu sesiynau i helpu rhieni a gofalwyr i gynorthwyo eu plant.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion uwchradd lleol, coleg addysg bellach a chwmi hyfforddiant i ehangu'r dewis o bynciau ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. O ganlyniad, mae gan y disgyblion ddewis o astudio ystod eang o bynciau ychwanegol, er enghraifft peirianeg, amaethyddiaeth a sgiliau gôf. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i sicrhau ansawdd y cysiau mewn partneriaeth.

Mae partneriaethau effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a chyflogwyr lleol. Mae'r cyflogwyr lleol yn mynychu dyddiau mentergarwch, yn cynnal ffug gyfweiliadau i'r disgyblion ac yn cynnig lleoliadau gwaith i'w paratoi ar gyfer byd gwaith.

Mae'r cydweithio effeithiol rhwng yr ysgol a'r ysgolion cynradd partner yn hybu trosglwyddo esmwyth i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnal ystod eang o weithgareddau addas i hwyluso'r trosglwyddo a sicrhau dilyniant ym mhrofiadau disgyblion. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys prosiectau llwyddiannus i ddatblygu medrau disgyblion a meysydd dysgu fel dylunio a thechnoleg.

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn elwa'n gryf o bartneriaethau'r ysgol â phrifysgolion lleol. Trwy hyn, mae'r disgyblion yn dysgu mwy am brofiadau mewn meysydd arbenigol ac yn codi eu hymwybyddiaeth yn fuddiol o'r cyfleoedd sydd ar gael yn y sector addysg uwch.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau dynol yn briodol ac yn dirprwyo'i staff yn effeithiol. Defnyddir eu harbenigedd yn dda i ddiwallu gofynion y cwricwlwm. Mae'r staff ategol a staff cymorth yn darparu cefnogaeth gadarn i'r athrawon a'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i reoli perfformiad yr holl aelodau staff. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i adnabod eu hanghenion hyfforddiant yn glir. Cefnogir staff i ddatblygu eu medrau yn unol â'u hanghenion trwy raglen gynhwysfawr o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae pob un o'r athrawon yn rhan o gymuned ddysgu broffesiynol ddefnyddiol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu cyflawniad a chynnydd disgyblion, gwella presenoldeb, lleihau effaith rhwystrau ar gynnydd disgyblion, datblygu'r disgyblion mwy abl a thalentog a chryfhau atebolrwydd staff. Yn ddiweddar, mae llawer o athrawon wedi cymryd rhan mewn triawdau dysgu proffesiynol er mwyn arbrofi a dysgu strategaethau addysgu llwyddiannus oddi wrth ei gilydd. Mae hyn wedi codi eu hyder a gwella'u medrau addysgu.

Mae'r pennaeth, y dirprwy, y rheolwr ysgol a'r is-bwyllgor cyllid yn monitro'r gyllideb yn ofalus. Fodd bynnag, o ganlyniad i ffactorau annisgwyl, mae'r ysgol wedi profi sefyllfa o ddiffyg cyllidebol yn ddiweddar. Mae'r ysgol bellach yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i waredu'r diffyg o fewn cyfnod penodol. Mae'r chweched dosbarth yn cynnig gwerth da am arian.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd cynhyrchiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion, sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau'r disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn arbennig ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

O ystyried deilliannau'r disgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Atodiad 1

6675500 - Ysgol Bro Pedr

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	377
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	20.3
Grŵp PYD	3 (16%<FSM<=24%)

Cyfnod Sylfaen

	2013	2014	2015	2016
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2	36	36	49	52
Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)	86.1	91.7	91.8	92.3
Chwarter meincnod	3	2	2	2
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	17	18	30	26
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	88.2	94.4	90.0	92.3
Chwarter meincnod	3	1	3	2
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	35.3	27.8	36.7	34.6
Chwarter meincnod	2	3	2	3
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	19	18	19	26
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	94.7	88.9	94.7	92.3
Chwarter meincnod	2	3	2	2
